

**Ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru
< Rheoliadau arfaethedig i weithredu Rheoliad (UE) 2018/775 sy'n gosod rheolau ar gyfer
cymhwyso Erthygl 26(03) Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 >**

| | | | |
|------------------------|-------------------|---------------------|-------------------|
| Dyddiad lansio: | 22/01/2020 | Dyddiad cau: | 19/02/2020 |
|------------------------|-------------------|---------------------|-------------------|

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddi-ddordeb fwyaf?

Awdurdodau lleol a Gweithredwyr Busnesau Bwyd yng Nghymru sy'n gwerthu bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw mewn achosion lle nad yw gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn yr un peth â tharddiad y bwyd.

Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Mae Rheoliadau Drafft Cymru wrthi'n cael eu paratoi i ddarparu ar gyfer gorfodi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 2018/775. Mae'r Rheoliad yn uniongyrchol berthnasol ac yn nodi rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn lle nad yw yr un peth â tharddiad y bwyd yn ei gyfanrwydd. Daw Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 i rym ar 1 Ebrill 2020.

Mae Rheoliad yr UE yn adeiladu ar y gofynion gwlad tarddiad cyffredinol yn Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE (UE) Rhif 1169/2011.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio sylwadau gan ddiwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ar offeryn statudol arfaethedig a fydd yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 ar y rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn bwyd.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Adam McDowell
Tîm Polisi Bwyd

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Ffôn: 029 2067 8999

Llawr 11
Tŷ Southgate,
Wood St,
Caerdydd,
CF10 1EW

E-bost: Adam.McDowell@food.gov.uk

**A oes asesiad effaith
wedi'i gynnwys?**

Oes

Nac oes **Gweler Atodiad A
am y rhesymau.**

Rheoliadau arfaethedig i weithredu Rheoliad (UE) 2018/775 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(03) Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011

Manylion yr ymgynghoriad

1. Byddai'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn croesawu eich sylwadau ar ein cynnig i ddrafftio offeryn statudol ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 ar y rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd.
2. Mae Rheoliad Gweithredu 2018/775 yn pennu rheolau a gofynion o ran sut i gymhwyso'r ddarpariaeth a nodir yn Erthygl 26 (3) 1169/2011 ar wlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd, ac mae'n darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau hynny yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae'r ASB yng Nghymru wrthi'n drafftio Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru i ddarparu ar gyfer gorfodi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 2018/775 sy'n nodi rheolau manwl ar ddarparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr, sy'n nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn lle nad yw'r un peth â tharddiad y bwyd yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Rheoliad Gweithredu yn uniongyrchol berthnasol, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i fusnesau bwyd gydymffurfio â'i ofynion.

Diben

Diben yr Offeryn Statudol Cymreig yw:

(a) gweithredu a galluogi ar gyfer gorfodi a

(b) darparu cosbau am beidio â chydymffurfio â

gofynion Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 2018/775 sy'n nodi gofynion labelu penodol lle nad yw gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn yr un peth â tharddiad y bwyd ei hun.

Cefndir

1. Yn 2011, cyflwynodd yr UE ddeddfwriaeth newydd wedi'i chysoni ar wybodaeth am fwyd a labelu bwyd, sef Rheoliad (UE) 1169/2011. Mae Erthygl 26 y Rheoliad hwn yn sefydlu rheolau cyffredinol o ran nodi gwlad neu fan tarddiad bwydydd, boed hynny'n orfodol neu'n wirfoddol. Pe bai gwybodaeth a gyflwynir ar y label yn awgrymu bod y cynnyrch yn dod o wlad wahanol i wlad tarddiad y bwyd, byddai'n orfodol i labelu gwlad tarddiad y bwyd er mwyn peidio â charmarwain y defnyddiwr. Er enghraifft, byddai'n rhaid i croissant gyda llun o'r tŵr Eiffel ar y deunydd pecynnu ac sydd wedi'i gynhyrchu yn y DU ddangos enw'r DU fel ei wlad tarddiad.

2. Yn ôl Rheoliad (UE) 1169/2011, caiff gwlad neu fan tarddiad bwyd ei nodi mewn unrhyw fodd fel datganiadau, darluniau, symbolau neu dermau, gan gyfeirio at leoedd neu ardaloedd daearyddol. Mae termau daearyddol a gynhwysir mewn enwau cyffredin a generig, lle mae'r termau hynny'n llythrennol yn dynodi tarddiad ond lle

mae defnyddwyr yn gwybod i raddau helaeth nad dyna gwlad na man tarddiad y bwyd hwnnw, wedi'u heithrio. Ymhlith yr enghreifftiau mae: Bagels Efrog Newydd, cacen Black Forest, a saws cyri Thai.

3. Mae Erthygl 26(3) hefyd yn mynnu, lle nodir tarddiad bwyd ac nad yw'r tarddiad yr un peth â tharddiad y prif gynhwysyn, y dylid cynnwys gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn hefyd, neu nodi ei fod yn wahanol. Nid yw hyn yn berthnasol i ddynodiadau daearyddol, na nodau masnach cofrestredig lle mae'r olaf yn nodi tarddiad, hyd nes y mabwysiadir rheolau penodol sy'n ymwneud â chymhwyso Erthygl 26 (3) i ddynodiadau o'r fath.

Rheoliad Gweithredu 2018/775

Mae Rheoliad Gweithredu 2018/775 yn pennu rheolau a gofynion o ran sut i gymhwyso'r ddarpariaeth a nodir yn Erthygl 26 (3) 1169/2011 ac yn gosod rheolau ar sut y dylid nodi neu gyflwyno tarddiad y prif gynhwysyn, os yw'n wahanol i darddiad y cynnyrch.

1. Yn ôl Erthygl 2, rhaid nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn, sy'n wahanol i'r cynnyrch bwyd y mae'n rhan ohono:

(a) Gan gyfeirio at un o'r ardaloedd daearyddol canlynol:

- 'UE', 'tu allan i'r UE' neu'r 'UE a'r tu allan i'r UE'; neu
- Rhanbarth, neu unrhyw ardal ddaearyddol arall gyda sawl Aelod-wladwriaeth neu o fewn trydydd gwledydd; neu
- Ardal bysgota, môr neu gorff dŵr croyw Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig; neu
- Aelod-wladwriaeth(au) neu drydedd gwlad/gwledydd; neu
- Rhanbarth, neu unrhyw ardal ddaearyddol arall o fewn Aelod-wladwriaeth neu o fewn trydedd wlad; neu
- Y wlad neu'r man tarddiad yn unol â darpariaethau penodol yr UE sy'n berthnasol ar gyfer y prif gynhwysion;

(b) Neu trwy ddatganiad fel a ganlyn:

- mae/nid yw '(enw'r prif gynhwysion) yn tarddu o (gwlad neu fan tarddiad y bwyd)' neu unrhyw eiriad tebyg sy'n debygol o fod â'r un ystyr i'r defnyddiwr.

2. Mae Erthygl 3 yn nodi rheolau ar sut y dylid nodi a chyflwyno tarddiad y prif gynhwysyn, os yw'n wahanol i darddiad y cynnyrch.

- Rhaid darparu gwybodaeth sy'n nodi gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn mewn maint ffont nad yw'n llai na'r maint ffont lleiaf fel sy'n ofynnol yn unol ag Erthygl 13(2) o Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 (yn hafal i, neu'n fwy na 1.2mm).
- lle nodir gwlad neu fan tarddiad bwyd gyda geiriau, bydd gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn yn ymddangos yn yr un lle gan

ddefnyddio maint ffont sydd ag uchder x sydd o leiaf 75% o uchder-x y datganiad i nodi gwlad neu fan tarddiad y bwyd.

- lle nodir gwlad neu fan tarddiad bwyd trwy ffurf nad yw'n ysgrifenedig, bydd gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn yn ymddangos yn yr un lle.

3. Bydd y gofynion hyn yn berthnasol o 1 Ebrill 2020. Gellir marchnata bwydydd a roddir ar y farchnad neu a gaiff eu labelu cyn dyddiad cymhwyso'r Rheoliad hwn nes bod y stociau wedi dod i ben.

Ymadael â'r UE

Disgwylir i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020. Fodd bynnag, pe bai ymadawiad yr UE yn cael ei negodi gyda Chyfnod Gweithredu cytunedig neu estyniad pellach i Erthygl 50, byddai Cyfraith yr UE yn parhau i fod yn uniongyrchol berthnasol yn y DU. Yn y naill sefyllfa neu'r llall, mae'n ofynnol i is-ddeddfwriaeth yng Nghymru ddarparu ar gyfer gweithredu a gorfodi'r Rheoliad Gweithredu.

Cynigion

Mae dau gynnig yn cael eu hystyried.

Dewis 1 – Peidio â darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2018/775 mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd.

Byddai peidio â darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2018/775 yn golygu na fyddai mecanwaith gorfodi yng Nghymru mewn perthynas â'r Rheoliad Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol.

Dewis 2 – Darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2018/775 mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd.

Mae'r rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfer gweithredu rheoliad (UE) 2018/775 yn bwriadu dilyn yr un dull tuag at orfodi ag a gymerir yn Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014. Bydd hyn drwy gyfrwng 'Hysbysiadau Gorfodi' wedi'u hategu, lle y bo'n berthnasol ac os bydd diffyg cydymffurfio, drwy nodi troseddau.

Y prif gynnig/gynigion:

Cynnig darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/775

Gorfodi

Bydd y rheoliadau arfaethedig i weithredu rheoliad (UE) 2018/775 yn galluogi'r awdurdodau gorfodi yng Nghymru i weithredu os na ddarperir gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd pan fo angen.

Bwriedir i'r rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2018/775

ddilyn yr un dull gorfodi â'r dull ar gyfer Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, sef trwy hysbysiad gwella wedi'i ategu, lle y bo'n berthnasol ac os bydd diffyg cydymffurfio, drwy nodi troseddau. Dylai hyn gael ei ddefnyddio fel rhan o'r hierarchaeth gorfodi pan nad ystyrir bod mesurau anffurfiol yn briodol bellach. Os na chaiff yr amodau a nodir mewn hysbysiad gwella eu bodloni, bydd methu â chydymffurfio â'r amodau hynny yn drosedd. Bydd busnesau'n cael cyfle i apelio yn erbyn rhybudd gwella. Bydd apelïadau yn cael eu clywed ger bron llys Ynadon.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Proses Ymgynghori

1. Rydym ni'n lansio ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos er mwyn rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb wneud sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddomestig arfaethedig ar gyfer gweithredu Rheoliad 2018/775 a'i effeithiau cysylltiedig. Mae'r ASB yn rhagweld y bydd yr effaith ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi wrth ymglyfarwyddo â'r rheoliadau gorfodi hyn yn fach iawn.
2. Ystyrir bod cyfnod ymgynghori o bedair wythnos yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn gan fod y rheoliadau hyn yn gorfodi Rheoliad Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol heb unrhyw fesurau cenedlaethol.
3. Bydd unrhyw ymatebion a ddaw i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus, a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan o fewn tri mis o gau'r ymgynghoriad.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

C1: A fydd gweithredu'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar eich busnes? Os ydych chi o'r farn y bydd y Rheoliadau'n effeithio ar eich busnes chi, neu fusnes yn eich ardal, a fydech cystal â nodi unrhyw wybodaeth am nifer y busnesau hynny, eu lleoliad ac yn ddelfrydol, eu maint o ran staff.

C2: A ydych chi'n ystyried y bydd y polisi/Rheoliadau arfaethedig yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

C3: Hoffem wybod eich safbwyntiau barn am yr effeithiau y byddai Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 ar y rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

C4: Sut effeithiau fydech chi'n eu rhagweld? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Dogfennau perthnasol eraill

Mae Rheoliad (UE) 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr ar gael i'w lawrlwytho am ddim o wefan deddfwriaeth.gov.uk drwy:

<https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX%3A32011R1169>

Mae Rheoliad y Comisiwn (UE) 2018/775 ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan EURlex drwy:

https://eur-lex.europa.eu/eli/reg_impl/2018/775/oj

Ymatebion

Mae angen i ymatebion ddod i law erbyn 19/02/2020. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Adam McDowell
Tîm Polisi Rheoleiddio
Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

Amgaeedig

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Atodiad B: Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartion eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partion fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk/>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at:
informationmanagement@foodstandards.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi¹.

Bydd y rheoliadau arfaethedig yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2018/775 mewn perthynas â Chymru. Mae rheoliadau cyfochrog yn cael eu paratoi gan Defra mewn perthynas â Lloegr, a chan yr ASB yng Ngogledd Iwerddon a Safonau Bwyd yr Alban.

Ystyrir bod cyfnod ymgynghori byrrach yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn gan fod y rheoliadau hyn yn darparu gorfodaeth uniongyrchol ar gyfer Rheoliad Ewropeaidd heb unrhyw fesurau cenedlaethol.

Asesiad Effaith

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Asesiadau Effaith yn nodi y dylid cyhoeddi Asesiad Effaith ochr yn ochr ag ymgynghoriad ffurfiol fel arfer. Rydym ni o'r farn mai bach iawn fyddai effaith y Rheoliadau arfaethedig ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi. Dim ond ar gyfer Rheoliad Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol y byddant yn darparu unrhyw ofynion gorfodi, heb unrhyw fesurau cenedlaethol.

Fodd bynnag, os yw'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at effaith ar gyrff gorfodi neu'r diwydiant na ragwelwyd, byddwn yn ailystyried yr angen am Asesiad Effaith.

¹ www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Atodiad B: Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Abergavenny Fine Foods Ltd
Baraka Foods Ltd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Castell Howell Foods Cyf
Clark's Original Pies
Dailycer Ltd.
Drink Pac UK Ltd
Undeb Amaethwyr Cymru
Goch & Company Ltd
Gwaun Valley Meats
Hybu Cig Cymru
Jersey Bakery Ltd
Lewis Fine Foods Ltd
Mark Hunter Ltd
Minton, Treharne & Davies Limited
Mirandas Preserves
Mrs Cupcakes
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Defaid Cymru
Ocean
One Stop Stores Ltd
OP Chocolate Ltd
Pembertons Victorian Chocolates Ltd
Prince's Gate Spring Water
Rhydwen Bakery
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Rowan Foods
S.A. Brain & Company Ltd
Selectfood
Sweet Delights
Tate and Lyle Food Systems
Teifi Farmhouse Cheese
The Patchwork Traditional Food Company
Tillery Valley Foods Ltd
Ty Nant Spring Water Limited
Welsh Hills Bakery